OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 868 (Cy. 190)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 3.05 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbon Senedd Cymru - - - -* | *am 5.50 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Yn dod I rym - -* | *am 4.00 a.m ar 15 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

### Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.**—(1) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Aruba"

"Ffrainc"

"Yr Iseldiroedd"

"Malta"

"Monaco".

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179) ac O.S. 2020/840 (Cy. 185).

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Ynysoedd Turks a Caicos".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig**

**4.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—

"(m) Twrnamaint Golff Agored Iwerddon Dubai Duty Free (Cylchdaith Golff Ewrop);

(n) Twrnamaint Golff Agored Gogledd Iwerddon (Cylchdaith Her Ewrop a gefnogir gan yr R&A)."

(3) Yn lle paragraff 8 rhodder—

"**8.** Rygbi'r Gynghrair—

(a) Gornestau Super League Betfred;

(b) Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair."

(4) Ar y diwedd mewnosoder—

"**14.** Bocsio—

(a) Matchroom Fight Camp – Gornest Ryngwladol Pwysau Trwm;

(b) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Trwm y Byd Cyngor Bocsio'r Byd;

(b) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Ysgafn y Byd y Menywod Sefydliad Bocsio'r Byd."

*Mark Drakeford*
Am 3.05 p.m. ar 14 Awst 2020 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Aruba, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Malta Monaco ac Ynysoedd Turks a Caicos o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau eraill at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.